Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl393

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Fetio Aelodau Panel Annibynnol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Rhennir cofrestru a recriwtio Aelodau Panel Annibynnol rhwng yr holl heddluoedd yng Nghymru. Trafodir unrhyw newidiadau a wneir i ddogfennau cenedlaethol yn rhanbarthol er mwyn mabwysiadu ymagwedd gyson ledled Cymru.

Mae arfer proffesiynol awdurdodedig 2024 ar gyfer fetio'n amlinellu *"nad oes angen fetio unigolion annibynnol â chymwysterau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â gwrandawiadau camymddwyn, nac aelodau panel annibynnol."*

Fodd bynnag, dylid nodi y bydd gan Aelodau Panel Annibynnol fynediad at ddeunydd yr heddlu na fydd ar gael yn gyhoeddus. Bydd fetio Aelodau Panel Annibynnol yn darparu diogelwch ychwanegol ar gyfer unrhyw risg posibl a byddai'n cryfhau eu haddasrwydd os bydd unrhyw wrthwynebiad i'w penodiad.

**Argymhelliad:**

Parhau i fetio Aelodau Panel Annibynnol i gryfhau eu haddasrwydd ar gyfer y rôl.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 17/06/25